***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 905

# Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 2004

## RHAN V

Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru

### Sefydlu Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru

**23.** Sefydlir drwy hyn, yn effeithiol o 1 Ebrill 2004, gorff i'w alw'n Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru y bydd ganddo'r swyddogaethau canlynol—

(a) rhoi cyngor i Gynghorau mewn cysylltiad â chyflawni eu swyddogaethau;

(b) cynorthwyo Cynghorau i gyflawni eu swyddogaethau;

(c) cynrychioli safbwyntiau a buddiannau Cynghorau ar y cyd gerbron y Cynulliad;

(ch) monitro perfformiad Cynghorau a swyddogion a benodwyd o dan reoliad 14 gyda'r bwriad bod pob Cyngor yn datblygu a sicrhau cysondeb eu safonau.

### Cyfansoddiad Bwrdd CIC

**24.** Bydd ar Fwrdd CIC 28 o aelodau a bydd —

(a) 26 ohonynt yn cael eu penodi gan y Cynghorau'n gweithredu ar y cyd; a

(b) 2 yn cael eu penodi gan y swyddogion a benodwyd o dan reoliad 14 a'r rheini'n gweithredu ar y cyd.

### Staff cynnal

**25.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad benodi person sy'n dderbyniol i Fwrdd CIC i fod yn Gyfarwyddwr y Bwrdd a rhaid iddo hefyd, ar ôl ymgynghori â Bwrdd CIC ac yn ddarostyngedig i fod Bwrdd CIC yn derbyn unrhyw swyddogion unigol a benodir, benodi personau i fod yn swyddogion eraill Bwrdd CIC fel sy'n angenrheidiol ym marn y Cynulliad.

(2) Rhaid i benodiad person i weithredu fel un o swyddogion Bwrdd CIC gael ei wneud gan y Cynulliad mewn dull ac am gyfnod sy'n dderbyniol i Fwrdd CIC.

(3) Rhaid i bersonau a benodwyd yn unol â pharagraff (1) a pharagraff (2) gael eu cyflogi gan y Bwrdd Iechyd Lleol y bydd y Cynulliad yn penderfynu arno at y diben , a hynny'n unol ag unrhyw reoliadau a wneir gan y Cynulliad ac unrhyw gyfarwyddiadau a roddir ganddo o dan y Ddeddf, a rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw sy'n eu cyflogi'n sicrhau bod eu gwasanaeth ar gael i'r Cyngor gydol tymor eu gwasanaeth.

### Mangreoedd a chyfleusterau eraill

**26.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad, ar ôl ymgynghori â Bwrdd CIC —

(a) ddarparu lle y mae ei angen ym marn y Cynulliad ar gyfer swyddfa a llety arall i Fwrdd CIC i alluogi'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau; a

(b) sicrhau y gwneir trefniadau ar gyfer y gwaith gweinyddu, cynnal a chadw, glanhau a'r gwasanaethau eraill hynny y gall fod eu hangen ym marn y Cynulliad ar gyfer llety o'r fath,

ond caiff yr aelodau, gyda chymeradwyaeth y Cynulliad, wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau a llety.

(2) I alluogi Bwrdd CIC i gyflawni ei swyddogaethau —

(a) caiff y Cynulliad sicrhau bod y cyfleusterau hynny y mae o'r farn bod eu hangen ac a ddarperir ganddo ar gyfer unrhyw wasanaeth o dan y Ddeddf (yn cynnwys defnyddio unrhyw fangre a defnyddio unrhyw gerbyd, peiriannau neu offer) ar gael i Fwrdd CIC; a

(b) rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol y cyfeirir ato yn rheoliad 25(3) sicrhau bod gwasanaethau'r cyflogeion hynny a gall y Cynulliad eu pennu yn ei gyfarwyddyd ar gael.

### Trafodion

**27.**—(1) Rhaid i Fwrdd CIC fabwysiadu cyfansoddiad a Rheolau Sefydlog fel y gwêl yn dda.

(2) Caniateir amrywio'r cyfansoddiad a'r rheolau a fabwysiedir felly mewn unrhyw gyfarfod dilynol o Fwrdd CIC.

(3) Caiff Bwrdd CIC benodi pwyllgorau ac is-bwyllgorau y caiff personau nad ydynt yn aelodau o Fwrdd CIC fod yn aelodau ohonynt.

(4) Bydd hawl gan gynrychiolydd o'r Cynulliad a chynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd Lleol y cyfeirir atynt yn rheoliad 25(3) fynychu unrhyw gyfarfodydd o Fwrdd CIC a chymryd rhan mewn trafodaethau (ond ni chânt gyfrannu at wneud penderfyniadau).

### Adroddiadau

**28.** Rhaid i Fwrdd CIC, erbyn 1 Medi 2004 ac ym mhob blwyddyn ddilynol, gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Cynulliad ynghylch cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod o ddeuddeg mis yn gorffen ar 31 Mawrth y flwyddyn honno, ac ynghylch materion eraill y gall y Cynulliad ofyn amdanynt.